

CYFARFOD	Cabinet Cyngor Gwynedd
DYDDIAD	15 Mehefin 2021
AELOD CABINET	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
SWYDDOG	Gwern ap Rhisiart
TEITL YR EITEM	Ysgol Abersoch

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

- i. Cymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

3. CYFLWYNIAD

3.1 Yn eu cyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon diweddar ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol.

3.2 Cynhaliwyd tri cyfarfod rhwng Hydref 2019 a Ionawr 2020. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, cafwyd trafodaeth gychwynnol am opsiynau. Eglurwyd fod angen ystyried opsiynau fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod Panel Adolygu Ysgol (PAY) ar 13 Tachwedd 2019. Yn ystod y cyfarfod, gwerthuswyd cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau'r holl opsiynau. Derbyniwyd sylwadau pellach gan y corff llywodraethol yn dilyn y cyfarfod yn ogystal. Ystyriwyd casgliadau'r gwerthusiad, a mireiniwyd y rhestr o opsiynau i 3. Cyflwynwyd yr opsiynau hyn yn ystod y trydydd cyfarfod PAY ar 6 Ionawr 2020 a nodwyd y bwriad i gynnal asesiadau pellach cyn dod i benderfyniad ar yr opsiwn a ffafrir.

3.3 Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

3.4 Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

4. CEFNDIR

4.1 Y Prif Heriau y mae'r ysgol yn wynebu

- 4.1.1 Mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser.
- 4.1.2 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, yn benodol:
- i. Mae niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin.
 - ii. Mae maint y dosbarthiadau yn fychan – gyda 10 disgybl yn cael eu dysgu mewn un dosbarth cymysg eu hoedran.
 - iii. Mae rhagolygon yn dangos 10 o ddisgyblion yn 2021, 12 o ddisgyblion yn 2022, a 12 o ddisgyblion yn 2023.
 - iv. Dengys data Medi 2020 fod 26 disgybl yn byw yn nalgylch Abersoch gyda 21 ohonynt yn mynychu ysgolion eraill. Dengys hefyd bod 5 disgybl tu allan i ddalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Abersoch.
 - v. Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm ychwanegol yma yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582.
 - vi. Cost fesul disgybl Ysgol Abersoch yn y flwyddyn ariannol 2020/21 yw £17,404 o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod o £4,198
 - vii. Nifer o lefydd gweigion – 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)

4.2 Cyd-destun Strategol

- 4.2.1 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion 'Addysg Addas i Bwrpas' a fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn benodol drwy resymoli ystod oedran dosbarthiadau a rhoi tegwch i benaethiaid i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd.
- 4.2.2 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. O fewn y strategaeth hon nodir ffactorau i gefnogi'r broses o adolygu dalgylchoedd neu sefyllfaoedd penodol. Gweler manylion y ffactorau hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad (Rhan 4.3.2).

4.3 Dewis opsiwn ffafriedig

- 4.3.1 Yn ystod y cyfarfodydd lleol, cynigwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau posibl, yn benodol:
- Gwneud dim (parhau gyda'r status quo)
 - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-11 oed
 - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed
 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos
 - Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
 - Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

- Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch
- Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch
- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch

Mae gwerthusiad o'r opsiynau hyn i'w gweld yn **Atodiad A**. Adolygwyd y gwerthusiad wedi'r cyfnod ymgynghori.

4.3.2 Yn unol â strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, yn benodol:

- | | |
|--|------------------------|
| • Maint dosbarthiadau (ac amrediad oedran) | • Adnoddau Ariannol |
| • Niferoedd disgyblion | • Yr Iaith Gymraeg |
| • Arweinyddiaeth a Staffio | • Ffactorau Daearyddol |
| • Y Gymuned | |

4.3.3 Yn dilyn gwerthuso manteision ac anfanteision yr opsiynau uchod yn erbyn y ffactorau yn y strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, daeth 3 o opsiynau i'r amlwg fel y rhai a fyddai fwyaf hyfyw a realistig i gyfarch sefyllfa'r ysgol, sef:

- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen.

4.3.4 Roedd adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 15 Medi 2020 yn manylu ar yr heriau oedd yn wynebu'r ysgol a'r angen i gymryd camau pellach i'w cyfarch. Tra bod yr opsiwn o gynnal y sefyllfa gyfredol wedi ei ystyried, nid oedd yr Awdurdod o'r farn y byddai'n mynd i'r afael â sefyllfa fregus yr ysgol. Trwy wneud dim, byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, ynghyd â'r heriau cyllidol yn parhau.

4.3.5 Cynhaliwyd Aseidiadau Effaith yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Mae fersiynau diwygiedig yn dilyn y cyfnod ymgynghori wedi eu cynnwys yn Atodiad D.

4.4 OPSIYNAU RHESYMOL I'W HYSTYRIED AR GYFER YR YSGOL

4.4.1 Newid ystod oed Ysgol Abersoch

4.4.2 Trafodwyd 2 opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol, sef ymestyn i 3-9 oed ac ymestyn i 3-11 oed.

4.4.3 Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma yn lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol yn sgil darparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed dalgylch Abersoch).

4.4.4 Wrth gymharu'r ddau opsiwn, daethpwyd i'r canlyniad mai'r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 am sawl rheswm, yn benodol:

- Ni ragwelir y byddai ychwanegu blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
- Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.

- Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.
- 4.4.5 Credir y byddai'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn.
- 4.4.6 Er mwyn i'r opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd hwn fod yn un sylweddol. Serch hynny, mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn niferoedd Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn achosi lleihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yr ysgolion cyfagos.
- 4.4.7 Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiaid cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol, a gall gael effaith ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos.
- 4.5 Ffederaleiddio
- 4.5.1 Fel y gwelir uchod (para. 4.4.1) trafodwyd ac ystyriwyd 3 math gwahanol o ffederaleiddio. Daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn oedd fwyaf rhesymol i'w ystyried ymhellach oedd yr opsiwn i ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.
- 4.5.2 Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol gyfagos dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigedd.
- 4.5.3 Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch yr her o leihad mewn niferoedd, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.
- 4.5.4 Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut byddai'r ddwy ysgol yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.
- 4.5.5 Bu trafodaethau gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y ddwy ysgol gyfagos (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog), parthed yr opsiwn i sefydlu ffederasiwn gydag Ysgol Abersoch.
- 4.5.6 Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiaid cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel o ddisgyblion, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau
- 4.6 Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen
- 4.6.1 Byddai'r model yma'n golygu cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.
- 4.6.2 Ystyrir Ysgol Sarn Bach fel yr 'ysgol amgen' am y rhesymau canlynol:

- Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle Ysgol Abersoch.
- Mae Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion o Ysgol Abersoch ym mlwyddyn 4.
- Mae 40% o blant (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach.
- Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti i dderbyn disgyblion presennol Ysgol Abersoch.

4.7 Y Cynnig

- 4.7.1 Mae'r cynnig hwn yn golygu y byddai Ysgol Abersoch yn cau a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.
- 4.7.2 Y nod yw bydd y cynnig yn arwain at gyfleoedd mwy cyson i blant y dalgylch, drwy anelu at ddyheadau strategol Cyngor Gwynedd i 'gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn', byddai hyn yn cynnwys:
- Maint Dosbarthiadau (ac amrediad oedran) - disgyblion i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas na'r sefyllfa bresennol. Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at well cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd yr ardal.
 - Poblogaeth a Niferoedd disgyblion - disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol ble mae'r niferoedd a rhagamcanion yn fwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a lleihau'r gyfradd o lefydd gweigion yn ysgolion yr ardal.
 - Arweinyddiaeth - arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn mewn ysgol sydd â niferoedd yn caniatáu i Bennaeth gael tegwch i arwain a rheoli yn broffesiynol yn yr ysgol.
 - Y Gymuned – I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch.
 - Adnoddau Ariannol - Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion a fyddai'n lleihau'r amrediad mewn cost y disgybl i holl blant Gwynedd. Amcangyfrifir y byddai gwireddu'r cynnig yn arwain at gost fesul disgybl o £4,683 yn Ysgol Sarn Bach o gymharu â'r £17,404 y disgybl presennol yn Ysgol Abersoch. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £4,198 y disgybl. Amcangyfrifir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (£14,000) – sef oddeutu £96,062 y flwyddyn.
 - Yr Iaith Gymraeg – disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Gymraeg, fel y sefyllfa bresennol, ac mewn ysgol ble mae defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gryf.
 - Ffactorau Ddaearyddol - byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor.
- 4.7.3 Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd lle yn cael ei warantu i ddisgyblion presennol Ysgol Abersoch yn Ysgol Sarn Bach. Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae gan rieni hawl i ddewis a gwneud cais am le mewn unrhyw ysgol i'w plentyn, ac nid o reidrwydd yr ysgol honno fyddai'r ysgol ddalgylch. Pe wireddir y cynnig hwn, byddai gan rieni hawl i wneud cais i unrhyw ysgol y dymunant. Nid oes gwarant fod lle i blentyn yn eu hysgol ddewisol.
- 4.7.4. Dylid nodi fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion dalgylch Ysgol Abersoch ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 8 oed.
- 4.7.5 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.

Map 1: Dalgylchoedd presennol y 2 ysgol

Map 2: Dalgylch Ysgol Sarn Bach os gweithredir y cynnig



5. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

- 5.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 12 Ionawr 2021 a 13:00 o'r gloch ar 23 Chwefror 2021.
- 5.2 Bu i'r Adran Addysg gychwyn yr ymgynghoriad ar 5 Ionawr 2021 yn wreiddiol, ond gan na wnaeth yr un plentyn fynychu safle Ysgol Abersoch ar y diwrnod hwnnw oherwydd cyfyngiadau diweddaraf Covid-19, roedd anafodlonrwydd yn lleol nad oedd yr awdurdod wedi cyd-fynd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gyhoeddi'r ymgynghoriad ar "ddiwrnod ysgol". Yn ddiweddarach, ar 7 Ionawr 2021, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi addasiad dros dro i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 oedd yn "caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor" o 8 Ionawr 2021 ymlaen. Er bod yr Adran Addysg yn parhau o'r farn fod y 5^{ed} o Ionawr 2021 yn "ddiwrnod ysgol", er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth neu amryfusedd, penderfynwyd ail gyhoeddi'r ymgynghoriad yn dilyn yr 8^{fed} o Ionawr 2021, a'i gynnal rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021.
- 5.3 Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg). Yn ogystal anfonwyd copïau caled o'r holl ddogfennau yn unol â cheisiadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai.
- 5.4 Anfonwyd copïau electroneg o'r ddogfen ymgynghori at y ddwy ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr disgyblion, staff ac aelodau corff llywodraethwyr yr ysgolion.
- 5.5 Cyhoeddwyd pecyn cefndirol yn ogystal, oedd yn cynnwys asesiadau effaith y cynnig ar yr iaith, y gymuned, cydraddoldeb, yn ogystal ag asesiadau ar effaith debygol ar drefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, ac asesiad yn erbyn nodau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y dogfennau ar gael i'w lawr lwytho oddi ar wefan y Cyngor.
- 5.6 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiynau "galw heibio" rhithwir oedd wedi ei cynnal dros gyfrwng Microsoft Teams. Anfonwyd gwahoddiadau at Lywodraethwyr, staff addysgu ac ategol, rhieni/gwarchodwyr Ysgol Abersoch ac unrhyw ran-ddeiliaid Cymuned Llanengan oedd eisiau gofyn cwestiynau yn ymwneud â'r cynnig. Yn ystod y sesiynau roedd swyddogion o adrannau perthnasol ar gael i

egluro ac ymateb i ymholiadau, fyddai'n galluogi i'r unigolion gyfrannu tuag at yr ymgynghoriad. Mynychodd 7 o bobl y sesiynau galw heibio rhithwir.

5.7. Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir gydag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn canfod barn y disgyblion. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau wedi ei gynnwys yn **Atodiad C**.

5.8. Derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Derbyniwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf, llythyr, ffurflen ymateb ac e-byst.

5.9 Dengys y tabl isod ffurf ac iaith a ddefnyddiwyd i ymateb i'r ymgynghoriad:

Ffurf ymateb	Cymraeg	Saesneg	Dwyieithog	Cyfanswm
Ffurflen ymateb	9	14	0	23
E-bost	26	85	7	118
Llythyr	7	5	0	12
Adroddiad	0	0	1	1

5.10 Yn anffodus, yn dilyn dyddiad cau yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn copi o'r e-bost i'w hysbysu am yr ymgynghoriad statudol. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer rhannu'r wybodaeth am yr ymgynghoriad, ond fe ymddengys bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir a felly ni dderbyniwyd y wybodaeth. Hoffem ymddiheuro am y camgymeriad hwn.

5.11 Er mwyn sicrhau fod cynrychiolwyr y Cylch Meithrin yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth, rhoddwyd cyfle i'r Cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn 1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021. Ni dderbyniwyd ymateb pellach gan gynrychiolwyr y cylch yn ystod y cyfnod ymgynghori estynedig.

6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

6.1 Pwrpas yr adran hon yw cyflwyno a chrynhoi rhai o'r prif faterion ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posib ymateb i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, fodd bynnag, ynghlwm (**Atodiad B**) ceir copi o dabl sy'n cynnwys dadansoddiad manylach o'r ymatebion yn ogystal ag ymateb y Cyngor. Gellir gweld copïau o'r ymatebion unigol ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Mae'r wybodaeth bersonol ar yr ymatebion wedi eu duo er mwyn cydymffurfio â gofynion yr ymgynghorai y Ddeddf Diogelu Data 2008 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

6.2 Er i'r ddogfen ymgynghori nodi na fydd yr ymatebion hyn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau, ond sylwadau, o ran yr ymateb yn gyffredinol yn ystod yr ymgynghoriad, gellir nodi bod y mwyafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd yn datgan gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

6.3 Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn:

- Gwrthwynebiadau i'r cynnig
- Sylwadau am y broses statudol
- Opsiynau amgen
- Materion Addysgol
- Materion Cyllidol
- Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant

- Ôl-ddefnydd Safle'r Ysgol
- Ysgolion Cyfagos
- Cludiant a theithio
- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Cylch Meithrin a Ti a Fi Abersoch
- Arall

6.4 Gwrthwynebiadau i'r cynnig

6.4.1 Roedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

6.4.2 *Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol, mae'r ysgol wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Ym mis Medi 2020 dim ond 10 o ddisgyblion oedd ar y gofrestr.*

6.4.3 *Pe gwireddir y cynnig arfaethedig, mae'r Cyngor o'r farn y bydd cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiadau allgyrsiol a chymdeithasol y disgyblion. Byddai hefyd yn lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion gan addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol, byddai'r cynnig yn arwain at leihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir a sicrhau bod plant yn trosglwyddo un waith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith.*

6.5 Y Broses Statudol

6.5.1 Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi anfodlonrwydd â'r penderfyniad i gynnal yr ymgynghoriad, yn benodol o safbwynt y cyfyngiadau yn sgil Covid-19 ac yn gofyn i ohirio'r ymgynghoriad. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion yn datgan anfodlonrwydd â'r penderfyniad i gynnal cyfarfodydd rhithwir yn hytrach na chyfarfodydd cyhoeddus. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud.

6.5.2 *Er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, mae'r Adran Addysg yn hyderus fod y broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd yn cydymffurfio â gofynion a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol:*

- *Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori, a'r dogfennau cefndirol perthnasol, ar ffurf copi electroneg ar wefan y Cyngor (gyda chopïau caled ar gael ar gais)*
- *Dosbarthwyd copiâu electroneg o'r ddogfen i'r rhan-ddeiliaid perthnasol*
- *Derbyniwyd sylwadau/ymatebion ysgrifenedig drwy'r post ac e-bost.*

6.5.3 *Nid yw'r Cod yn gosod gofyniad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus/ymgynghori. Yn hytrach, fe nodir yn y Cod "gall cynigwyr ddefnyddio ffyrdd eraill o ymgysylltu ag ymgynghoreion, fel sy'n briodol yn eu barn hwy".*

6.5.4 *Mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae'r Adran Addysg wedi cynnal sesiynau "galw heibio" er mwyn trafod y cynnig arfaethedig gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol dan sylw. Yn sgil cyfyngiadau Covid-19, nid oedd yn bosib cynnal y sesiynau "galw heibio" yn yr un modd. Serch hynny, er mwyn sicrhau bod rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch yn derbyn yr un cyfle i gael gwybodaeth, holi am eglurhad a chyflwyno sylwadau, cynhaliwyd sesiynau "galw heibio" dros gyfrwng meddalwedd cyfarfodydd rhithiol. Gosodwyd uchafswm o 3 ar gyfer pob sesiwn rhithwir er mwyn sicrhau fod pawb sy'n mynychu yn elwa ar drafodaeth gynhwysfawr a theg. Cynigiwyd 9 sesiwn dros 4 noson, a mynychodd 7 o bobl y sesiynau galw heibio rhithwir.*

- 6.5.5 *Yn ychwanegol i hynny, rhoddwyd cyfle i ran-ddeiliaid gyflwyno cwestiynau ynglŷn â'r cynnig drwy e-bost i'r Adran Addysg.*
- 6.5.6 *Cydymdeimlir â'r pryderon o gynnal ymgynghoriad yn ystod y pandemig, serch hynny, pwysleisir na allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ag ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Yn ychwanegol i hynny, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad ar 8 Ionawr 2021 er mwyn caniatáu i gynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion barhau, lle nad yw pob ysgol ar agor.*
- 6.5.7 *Credir fod niferoedd y sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad yn dystiolaeth nad oedd ei gynnal yn ystod cyfnod Covid wedi amharu'n ormodol ar allu'r ymgynghoreion i gymryd rhan.*
- 6.5.8 *Mewn ymateb i'r sylwadau fod y penderfyniad eisoes wedi ei wneud, pwysleisir mai ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach a gynhaliwyd rhwng 12 Ionawr a 23 o Chwefror 2021. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud eto. Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, cyflwynir adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r Cabinet, sef yr adroddiad hwn, er mwyn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Dim ond yn dilyn ystyried yr adroddiad, y bydd y Cabinet yn penderfynu p'un ai a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ai peidio.*
- 6.5.9 **Bu i rai ymatebwyr nodi anfodlonrwydd â'r broses o ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc.**
- 6.5.10 *Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae'n ofynnol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i gynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad er mwyn darganfod eu teimladau am y cynnig.*
- 6.5.11 *Fel nodwyd yn adran 5.7, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori rhithwir gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd sydd yn destun yr ymgynghoriad hwn. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir ag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn canfod barn y disgyblion.*
- 6.5.12 *Fel rhan o'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, paratowyd dogfennau priodol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach, a threfnwyd bod hwylusydd yn cynnal 3 chyfarfod dros y we (Google Meet) gyda'r ddwy ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatgan barn am y cynnig. Roedd rhieni Ysgol Abersoch yn bresennol ac anogwyd hwy gan yr hwylusydd i siarad ar ran eu plant er mwyn cryfhau'r broses o gasglu barn y plant am yr effaith posib arnynt pe byddai'r ysgol yn cau.*
- 6.5.13 *Roedd pob sesiwn yn cymryd tri chwarter awr i awr i'w gwblhau ac wedi eu rhannu i dri grŵp, Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Abersoch, disgyblion y Cyfnod Sylfaen Ysgol Abersoch a Chyngor Ysgol Sarn Bach. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a'u teimladau.*
- 6.5.14 *Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc wedi'i gynnwys yn **Atodiad C**.*
- 6.5.15 **Roedd rhai ymatebwyr yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, gan nodi na fyddai gweithredu'r cynnig yn Awst 2021 yn rhesymol oherwydd y diffyg amser i hysbysu rhieni o'r penderfyniad terfynol.**
- 6.5.16 *Er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021, mewn ymateb i'r sylwadau hyn, rydym bellach yn argymhell addasu dyddiad gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch i 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022.*

- 6.5.17 *Yn dilyn ystyried rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad, rydym o'r farn y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.*
- 6.5.18 **Cafwyd rhai sylwadau oedd yn nodi'r farn bod yr asesiadau effaith a'r manylion a nodwyd yn y ffurflen ymateb yn annigonol.**
- 6.5.19 *Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiadau yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Rydym o'r farn bod yr asesiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Yn yr un modd, mae'r Awdurdod yn hyderus fod ein prosesau a'r ffurflen ymateb yn cyfarch gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.*
- 6.5.20 **Derbyniwyd nifer o ymatebion yn nodi nad oedd y Cylch Meithrin wedi eu cynnwys yn y broses ymgynghori.**
- 6.5.21 *Bu i ni dderbyn ymateb gan y Mudiad Ysgolion Meithrin a gan Gylch Meithrin Abersoch fel rhan o'r ymgynghoriad. Yn anffodus, yn dilyn dyddiad cau yr ymgynghoriad fe ddaeth i'r amlwg nad oedd cynrychiolwyr y Cylch Meithrin wedi derbyn copi o'r e-bost i'w hysbysu am yr ymgynghoriad statudol. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, roeddem wedi cynnwys y cylch fel ymgynghorai yn y rhestr dosbarthu ar gyfer rhannu'r wybodaeth am yr ymgynghoriad, ond fe ymddengys bod cyfeiriad e-bost y Cylch wedi ei sillafu'n anghywir ac felly ni dderbyniwyd y wybodaeth. Hoffem ymddiheuro am y camgymeriad yma.*
- 6.5.22 *Er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr y Cylch Meithrin yn cael cyfle i ystyried y ddogfen ymgynghori yn unol â'r amserlen a roddir yn y Cod Trefniadaeth, rhoddwyd cyfle i'r Cylch anfon unrhyw sylwadau pellach atom erbyn 1yp dydd Mercher 21 Ebrill 2021. Ni dderbyniwyd ymateb pellach gan gynrychiolwyr y cylch yn ystod y cyfnod ymgynghori estynedig.*
- 6.5.23 **Roedd rhai ymatebion yn nodi pryderon am effaith y bygythiad o gau'r ysgol ar y staff ac ar addysg y disgyblion.**
- 6.5.24 *Mewn ymateb i'r sylwadau hynny, noder bod yr effaith negyddol bosib ar addysg y disgyblion wedi ei nodi fel risg yn y ddogfen ymgynghori statudol (7.15). I liniaru'r risg, nodir y bydd y Cyngor yn monitro'r ysgol yn unol â pholisi'r Adran Addysg ac yn cynnig cefnogaeth yn ôl yr angen.*
- 6.5.25 *Petai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai'r swyddi yn dod i ben pan fyddai'r ysgol yn cau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.*
- 6.5.26 *Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio rhithwir lle roedd posib trefnu i staff o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor fod yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, i'r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig.*
- 6.5.27 **Bu i rai nodi fod gwallau yn y ddogfen ymgynghori, a bod hynny'n tanseilio'u hyder yn yr ymgynghoriad.**

6.5.28 *Mae'r Cyngor yn hyderus yng nghywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r Cyngor yn derbyn fod lleoliad Ysgol Sarn Bach ar fap yn y ddogfen yn anghywir ond nad ydi hyn yn effeithio yr ymgynghoriad.*

6.6 Opsiynau Amgen

6.6.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn gofyn i'r Cyngor oedi'r broses a rhoi cyfle i'r ysgol gynyddu'r niferoedd a rhoi cyfle i'r Cylch Meithrin ffynnu.**

6.6.2 *Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Serch hynny, ni allwn fel awdurdod ymrwymo i beidio ymdrin â'r ysgol am gyfnod amhenodol. Mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Abersoch wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Mae'r Awdurdod o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:*

- *Dosbarthiadau bychan iawn.*
- *Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion.*
- *Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf, gyda 9 disgybl yn mynychu erbyn 2025.*

6.6.3 *Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi wedi agor ar safle'r ysgol ym mis Chwefror 2020. Serch hynny, ac er yn cydnabod yr effaith gadarnhaol bosib gall lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar niferoedd, nid oes modd gwarantu y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd, a rhagwelir y byddai heriau'r ysgol yn parhau.*

6.6.4 **Nodwyd gan nifer nad yw'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed na'r opsiwn i ffederaleiddio wedi eu hystyried yn llawn. Derbyniwyd un ymateb oedd yn gofyn i'r Cyngor egluro pam eu bod yn datgan fod trosglwyddiad disgyblion yn ystod eu haddysg gynradd yn cael effaith negyddol ar addysg.**

6.6.5 *Mewn unrhyw drefn fel hon, mae'n allweddol rhoi ystyriaeth fanwl a phwyso a mesur manteision ac anfanteision unrhyw fodel a dyna geir yn y Gwerthusiad Llawn o'r Opsiynau.*

6.6.6 *Fel a nodir yn y ddogfen ymgynghori (adran 6.4), yr opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma'n lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol gan ddarparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith posib y gallasai'r newid ei gael ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 oed ardal Ysgol Abersoch).*

6.6.7 *Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 oed am y rhesymau canlynol:*

- *Ni ragwelir y byddai ychwanegu un blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.*
- *Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.*
- *Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.*

6.6.8 *Cred y Cyngor fod symud ysgol neu bontio o un ysgol i'r llall ar unrhyw amser mewn gyrfa addysgol yn gallu arwain at darfu ar gynnydd rhai plant wrth iddynt gynefino mewn ysgol ac amgylchedd newydd ac yn ogystal gall danseilio gwydnwch rhai disgyblion.*

6.6.9 *Gan fod sefyllfa Ysgol Abersoch yn gymharol unigryw o ran pryd mae'r plant yn symud, prin yw'r dystiolaeth i brofi neu ddad-brofi'r rhagdybiaeth hwn ar gyfer pontio ar ddiwedd blwyddyn 3. Fodd bynnag ceir*

tystiolaeth o ffynonellau eraill, lle y cyfeirir at bontio cynradd / uwchradd arferol, megis adroddiad diweddar Estyn (Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion Gorffennaf 2020) lle nodir "Mae adegau pontio, fel symud ysgol, yn gyfnodau lle gall plant ddioddef gofid emosiynol, neu ostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu, y gall pob un ohonynt danseilio gwydnwch."

- 6.6.10 *Drwy leihau'r nifer o weithiau y bydd plant yn pontio cred y Cyngor y bydd llai o siawns i'r plant ddioddef gofid emosiynol, gostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu.*
- 6.6.11 *Mae cysondeb a chyd gynllunio'n allweddol ar gyfer pontio effeithiol.*
- 6.6.12 *Cred y Cyngor mai'r unig ffordd o sicrhau lleihad effeithiau negyddol posib pontio yw drwy leihau'r cyfnodau lle mae'n rhaid i blant bontio yn ystod eu gyrfa addysgol yn y lle cyntaf.*
- 6.6.13 *O safbwynt ffederaleiddio, er bod manteision i'r model, mae'r awdurdod o'r farn y byddai'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch y prif heriau y mae Ysgol Abersoch yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.*
- 6.6.14 *Mae'r Cyngor yn nodi yn y Ddogfen Ymgynghori'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen efo Opsiwn 4 a 5 (Ffederaleiddio). Ni fyddai ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn ddatrysiad i'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch.*
- 6.6.15 *Nid yw ffederaleiddio ysgolion yn arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant. Er byddai ysgolion yn rhannu un corff llywodraethol, byddant yn parhau fel dwy ysgol ar wahân ac yn cadw'u henwau presennol, ac yn parhau i gael eu cyllido ar wahân yn unol â fformiwla Cyngor Gwynedd. Byddai plant yn parhau i gael eu haddysgu yn yr un ysgolion a chan yr un staff.*
- 6.6.16 *Bu i swyddogion yr Adran Addysg gwrdd â phennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog ym mis Ionawr 2020 i drafod yr opsiwn o ffederaleiddio gydag Ysgol Abersoch. Oherwydd natur anffurfiol y trafodaethau hyn, ni chofnodwyd y cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i ddiweddarau penaethiaid a'r cadeiryddion ynghylch yr opsiynau a drafodwyd yn y cyfarfodydd lleol, gan amlygu unrhyw effaith bosib y gallai rhai o'r opsiynau gael ar eu hysgol. Ni fu i unrhyw un o'r ddwy ysgol ddatgan diddordeb mewn ymchwilio ymhellach i fodel ffederal.*
- 6.6.17 *Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau.*
- 6.6.18 *Er mwyn cael y gorau o fodel ffederal mae'n arferol, ond nid yn rheidrwydd, y byddai'r ysgolion yn rhannu Pennaeth. Gan fod Pennaeth ymhob un o'r ysgolion mae'r Cyngor o'r farn y gall model ffederal mwyaf effeithiol arwain at ddiswyddiadau gorfodol.*
- 6.6.19 *Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol*
- 6.6.20 **Derbyniwyd dau ymateb oedd yn argymhell ystyried opsiwn i sefydlu Ysgol Aml-Safle rhwng Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach.**
- 6.6.21 *Yn achos Model Ysgol Ardal Aml-safle, mi fyddai'r ysgol yn un ysgol ac un endid cyfreithiol sy'n gwasanaethu ardal eang. Fodd bynnag, mae ysgol ardal aml-safle yn rhoi darpariaeth addysgol ar nifer o safleoedd.*

- 6.6.22 *Budd y math yma o fodel yw'r gallu i ail-strwythuro'r drefniadaeth reolaethol, ond eto'n cadw presenoldeb addysg mewn mwy nag un gymuned. Mae'n fodel all weithio'n dda mewn ardaloedd gwledig iawn lle mae pellteroedd teithio hir nes cyrraedd ysgol amgen. Hefyd golyga nad yw safleoedd ysgolion bach yn cael eu gadael yn ynysig ond yn hytrach yn rhan o sefydliad addysg mwy. Gellir felly wneud gwell defnydd o adnoddau e.e. un pennaeth ar gyfer mwy nag un safle, rhannu adnoddau a staff rhwng safleoedd a dod a disgyblion safleoedd at ei gilydd i gynnal gweithgareddau gyda niferoedd uwch o ddisgyblion.*
- 6.6.23 *Fodd bynnag, rhai o anfanteision y model yma yw ei anallu i sicrhau fod maint ac amrediad dosbarthiadau rhai safleoedd addysg yn newid er gwell. Wrth ystyried yr opsiwn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiynau yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu e.e. niferoedd disgyblion isel, maint dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau a chost y disgybl uchel.*
- 6.6.24 **Roedd nifer o ymatebion yn argymhell datblygiadau posib i'r ysgol e.e. Ysgol Draeth, Canolfan Ddiwylliannol, Addysg Gyflawn ac Adnabod Bro.**
- 6.6.25 *Mae'r Cyngor yn nodi'r opsiynau i ddatblygu yr ysgol – ceir gwerthusiad llawn o'r opsiynau hyn yn **atodiad A**.*
- 6.6.26 *Mae Ysgol Abersoch wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol.*
- 6.6.27 *Cydnabyddir gall yr opsiynau yma wneud defnydd gwell o adeilad yr ysgol. Serch hynny, wrth ystyried opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiynau yn llwyddo i gwrdd â, na datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu e.e. niferoedd disgyblion isel, maint dosbarthiadau bychain, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau a chost y pen uchel.*
- 6.6.28 **Derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu pam nad ystyriwyd adolygiad dalgylchol.**
- 6.6.29 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019 wedi rhoi caniatâd i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gydag Ysgol Abersoch i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil pryderon ynghylch niferoedd disgyblion yr ysgol a phryderon ynglŷn â'r rhagamcanion oedd yn rhagweld y niferoedd yn parhau'n isel.*
- 6.6.30 *Mae'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd yn nodi:*
“Dylid ystyried gwybodaeth broffesiynol berthnasol er mwyn tynnu sylw at sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir sy'n amharu yn uniongyrchol ar ansawdd addysg a phrofiadau disgyblion (e.e. niferoedd bychan iawn mewn ysgol, cyflwr adeiladau'r ysgol yn hynod ddrwg, methu recriwtio pennaeth).
Bydd sefyllfa argyfyngus ysgolion unigol a amlygir ar sail gwybodaeth broffesiynol berthnasol gan gynnwys ceisiadau penodol gan ysgolion unigol yn ystyriaeth wrth adnabod ardaloedd sydd angen sylw pellach.”
- 6.6.31 *Pwysleisir nad yw'r adolygiad o sefyllfa Ysgol Abersoch yn ran o strategaeth ehangach ar gyfer addysg yn yr ardal, ond yn hytrach, yn ymateb i sefyllfa argyfyngus ysgol unigol.*
- 6.6.32 **Nododd rhai y dylid rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r ysgol ac ystyried caniatáu rhagor o amser i wneud gwaith pellach i ganfod opsiynau ar gyfer yr ysgol.**
- 6.6.33 *Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodir fod Ysgol Abersoch eisoes yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth*

a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl o £4,198.

6.6.34 Nid yw hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd bod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol yn parhau.

6.6.35 Fel nodwyd yn adran 6 y ddogfen ymgynghori, bu i'r Awdurdod ystyried 10 opsiwn gwahanol yn dilyn trafodaethau gydag Ysgol Abersoch. Ni ragwelir y byddai caniatáu mwy o amser i wneud gwaith pellach yn cynnig unrhyw ddatrysiad i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

6.7 Materion Addysgol

6.7.1 **Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod gormod o bwyslais ar niferoedd yn gyrru'r cynnig. Nodwyd yn ogystal nad yw'r awdurdod wedi cydnabod y cynnydd a welwyd yn nerbyniad disgyblion Medi 2020 pan gychwynnodd 5 disgybl newydd yn Ysgol Abersoch.**

6.7.2 Mewn ymateb i'r sylwad, nodir fod yr Awdurdod wedi blaenoriaethu Ysgol Abersoch ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu (fel a nodir yn adran 4.1.2 uchod). Mae'r Adran Addysg o'r farn na fyddai parhau â'r ddarpariaeth addysg bresennol yn Ysgol Abersoch yn opsiwn hyfyw ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:

- Dosbarthiadau bychain iawn
- Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau - Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).
- Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion ar gyfer y disgyblion
- Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf.

6.7.3 O ganlyniad, rhagwelir y bydd sefyllfa Ysgol Abersoch yn parhau'n fregus, gyda'r un nifer o heriau yn ei hwynebu dros y blynyddoedd i ddod.

6.7.4 Mewn ymateb i'r diffyg cydnabyddiaeth o'r cynnydd mewn niferoedd yn Medi 2020, nodir bod niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch wedi eu datgan yn llawn yn adran 7.5 o'r ddogfen ymgynghori. Er bod 2 ddisgybl meithrin a 3 disgybl Derbyn wedi cychwyn ym mis Medi 2020, yn anffodus nid yw hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd. Roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl rhan amser ar gofrestr yr ysgol ym mis Medi 2020, o gymharu â 2 ddisgybl rhan amser a 7 disgybl llawn amser ym mis Medi 2019.

6.7.5 **Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cwestiynu cywirdeb a sail y rhagamcanion. Roedd rhai yn nodi anfodlonrwydd na roddwyd ystyriaeth i effaith gadarnhaol y Cylch Meithrin ar y rhagamcanion.**

6.7.6 Mae'r cyngor yn cydnabod bod rhagfynegi nifer plant i'r dyfodol yn anodd, yn arbennig felly gan nad oes rheidrwydd ar rieni i yrru eu plant i'r ysgol ddalgylch.

6.7.7 Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir bod y rhagamcanion niferoedd i'r dyfodol wedi eu creu drwy ddefnyddio gwybodaeth am dueddiadau'r gorffennol ac ar sail niferoedd Medi 2020. Darperir rhagamcanion 3 blynedd gan benaethiaid yr ysgolion unigol a chyfrifir rhagamcanion blwyddyn 4 a 5 gan yr awdurdod.

6.7.8 *Cydnabyddir nad yw cyfrifo rhagamcanion yn wyddoniaeth, ac mae'n bosib y bydd y niferoedd yn amrywio ychydig mewn gwirionedd. Serch hynny, mae'r Adran Addysg o'r farn, ar sail niferoedd Medi 2020, a chyfartaledd niferoedd derbyn y 3 mlynedd blaenorol, y bydd y niferoedd yn parhau'n isel yn Ysgol Abersoch am y pum mlynedd nesaf.*

Tabl 1 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Abersoch

	M	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Medi 2020	2	3	2	0	3	-	-	-	10
Amcangyfrif Medi 2021	3	2	3	2	0	-	-	-	10
Amcangyfrif Medi 2022	2	3	2	3	2	-	-	-	12
Amcangyfrif Medi 2023	2	2	3	2	3	-	-	-	12
Amcangyfrif Medi 2024	2	2	2	3	2	-	-	-	11
Amcangyfrif Medi 2025	2	2	2	2	3	-	-	-	11

- 6.7.9 *Ym Medi 2020, o'r 26 disgybl (3-8 oed) oedd byw yn nalgylch Ysgol Abersoch, 5 o'r plant hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch, gyda 21 (81%) ohonynt yn mynychu ysgolion tu allan i'r dalgylch. O ganlyniad, mewn ymateb i'r sylwadau sy'n nodi y bydd niferoedd a phoblogaeth plant yr ardal yn cynyddu dros yr 20-25 mlynedd nesaf, ar sail ffigyrau Medi 2020, deuir i'r casgliad nad oes modd gwarantu y byddai'r plant hynny yn dewis mynychu Ysgol Abersoch.*
- 6.7.10 **Roedd rhai ymatebion yn cwestiynu'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori am lefelau staffio a maint dosbarthiadau yn Ysgol Sarn Bach. Nodwyd pryderon fod maint dosbarthiadau cymysg yn Ysgol Sarn Bach a'r ysgolion cyfagos eisoes dros 20, sydd yn groes i Strategaeth yr Adran Addysg, ac y byddai gweithredu'r cynnig yn gwaethygu'r sefyllfa. Nodwyd pryder y byddai'r cynnig yn golygu bod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gorlawn.**
- 6.7.11 *Mewn ymateb i'r sylwadau a'r pryderon hyn, nodir fod gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach am y bum mlynedd nesaf (21 o lefydd gweigion yn yr ysgol (a 4 lle gwag yn y Meithrin). Pe gwireddir y cynnig, rhagwelir y byddai 21 plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a 37 yn CA2 yn Ysgol Sarn Bach. Mi fyddai disgwyl i Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen roi sylw priodol i bennu maint dosbarthiadau addas ac adnoddau staff yr ysgol i ymateb i'r niferoedd diweddaraf. Byddai'r cynnydd yn eu cyllideb flynyddol yn hwyluso opsiynau i ystyried dosbarth/iadau a staff ychwanegol.*
- 6.7.12 *Pwysleisir mai'r cynnig sy'n destun i'r ymgynghoriad statudol yw cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, "Dim ond gydag Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyfeirio at y cynnig ble y'i disgrifir ym mharagraff 1.1 uchod." Ni ystyrir felly bod maint dosbarthiadau'r ysgolion cyfagos (Ysgol Foel Gron ac Ysgol Llanbedrog) yn berthnasol i'r cynnig.*
- 6.7.13 **Derbyniwyd un sylwad oedd yn nodi fod y tabl yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori oedd yn nodi sawl disgybl oedd yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn gamarweiniol, a'i fod yn annheg cymharu ystadegau Ysgol Abersoch hefo'r ysgolion cyfagos gan ei bod yn ysgol 3-8 oed. At hynny, derbyniwyd sylw fod nifer o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach hefyd yn mynd i ysgolion all-dalgylch a bod nifer o ddisgyblion dalgylch Abersoch yn mynychu Ysgol Llanbedrog.**
- 6.7.14 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod y tabl yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori yn nodi annedd disgyblion Ysgol Abersoch a'r ysgolion cyfagos, gan gynnwys Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach.*

- 6.7.15 *Yn Medi 2020, roedd 20 allan o'r 48 o ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn byw y tu allan i'r dalgylch. Yn ogystal, roedd 6 o ddisgyblion Ysgol Llanbedrog (102) yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch.*
- 6.7.16 *Fel amlygwyd yn y ddogfen ymgynghori, bod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion ardal Abersoch ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 8 oed. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal yr ysgol bresennol, yn ogystal ag ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.*
- 6.7.17 *Cadarnheir fod 81% o blant (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch yn Medi 2020. Er eglurder, nid yw disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 sy'n byw yn ardal Abersoch wedi eu cynnwys yn y ffigwr yma gan fod ardal dalgylch Abersoch yn cael ei ystyried fel rhan o ddalgylch Ysgol Sarn Bach ar gyfer plant blynyddoedd 4, 5 a 6.*
- 6.7.18 **Roedd rhai ymatebion yn herio canlyniad yr asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd yr addysg, ac yn nodi bod yr addysg yn Ysgol Abersoch yn rhagorol. Roedd eraill o'r farn na fyddai'r cynnig yn cryfhau'r addysg, ac yn credu nad oedd y ddogfennaeth yn nodi llwyddiannau a chryfderau'r ysgol.**
- 6.7.19 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casgliad bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae'r wybodaeth yn yr asesiad yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y byddai gwireddu'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau o gyfoedion sydd â llawer llai o amrediad oedran a chyfle i wella profiad addysgiadol a chymdeithasol y disgyblion yn ddyddiol. Bydd anghenion unrhyw grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei asesu a'i weithredu yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r awdurdod. Manylir ymhellach ar ansawdd a safonau addysg yn Adran 7.2 o'r ddogfen ymgynghori a gweler yr asesiad llawn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar y wefan www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.*

6.8 **Materion Cyllidol**

- 6.8.1 **Roedd sawl ymgynghorai yn teimlo bod y cynnig yn canolbwyntio gormod ar feini prawf ariannol. Yn ogystal, roedd rhai ymgynghorai yn awyddus i wybod sut y cyfrifwyd yr amcan arbedion, ac os yw'r costau diswyddo wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrif hwnnw. Roedd eraill yn awyddus i gael gwybod, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, a fyddai angen adnodd ychwanegol ar Ysgol Sarn Bach, ac a fyddai plant yn cael grant gwisg ysgol?**
- 6.8.2 *Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn ogystal â'r heriau cyllidol sy'n wynebu Ysgol Abersoch, mae nifer o faterion eraill yn ymwneud â'r ysgol yn peri pryder. Yn wir, mae'r materion cyllidol yn deillio o'r heriau hyn. Mae'r Adran Addysg o'r farn nad yw'n ymarferol parhau â'r sefyllfa bresennol yn bennaf oherwydd:*
- *Dosbarthiadau bychain iawn*
 - *Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau - Addysgir y disgyblion mewn un dosbarth gydag amrediad oed hyd at 5 mlynedd (3-8 oed).*
 - *Niferoedd isel a diffyg profiadau o gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion oed-berthnasol ar gyfer y disgyblion*
 - *Rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn dangos y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y 5 mlynedd nesaf.*

- 6.8.3 *O ganlyniad, rhagwelir y bydd sefyllfa Ysgol Abersoch yn parhau'n fregus, gyda'r un nifer o heriau yn ei hwynebu dros y blynyddoedd i ddod.*
- 6.8.4 *Mewn ymateb i'r sylwadau am sut y cyfrifwyd yr amcan arbediad, nodir fod dyraniad 2020/21 Ysgol Abersoch yn £137,140, ac y byddai trosglwyddo disgyblion presennol Ysgol Abersoch yn golygu dyraniad ychwanegol i Ysgol Sarn Bach o £27,078. Pe bydda angen bws mwy na'r un sy'n cludo plant Abersoch ar hyn o bryd, fe fyddai yna gostau cludiant ychwanegol posib o £14,000. Mae hyn yn gadael amcan arbedion o £96,062. Cadarnheir os bydd unrhyw gostau diswyddo yna byddai'r costau hynny yn cael eu hariannu o'r arbedion.*
- 6.8.5 *Pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, ar sail dyraniad 2020/21, byddai trosglwyddo plant Ysgol Abersoch yn golygu dyraniad ychwanegol o £27,078 i Ysgol Sarn Bach. Byddai llywodraethwyr Ysgol Sarn Bach yn penderfynu ar y defnydd gorau o'r dyraniad ychwanegol yma.*
- 6.8.6 *Mewn ymateb i'r ymholiad ynglŷn a'r grant gwisg ysgol, nodir fod gan Ysgol Sarn Bach wisg ysgol swyddogol ac mae'r ysgol yn annog pawb i'w gwisgo. Mae disgwyliad ar rieni disgyblion blwyddyn 3 Abersoch i brynu wisg ysgol wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach beth bynnag. Gall plant sydd yn trosglwyddo o Ysgol Abersoch barhau i wisgo ei gwisg (Ysgol Abersoch) hyd at ddiwedd blwyddyn 3 os mai dyma ddymuniad y rhieni.*

6.9 Y Ddeddf Llesiant

6.9.1 Derbyniwyd sylw yn nodi nad ystyriwyd saith nod y Ddeddf Llesiant yn llawn.

- 6.9.2 *Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:*

"Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi."

- 6.9.3 *Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol - yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad bod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.*

6.10 Ôl-ddefnydd safle'r Ysgol

- 6.10.1 **Roedd nifer o sylwadau yn holi beth fyddai'n digwydd i'r adeilad/safle'r ysgol pe byddai Ysgol Abersoch yn cau.** *Mewn ymateb i'r sylwadau, nodir pe gweithredir y cynnig, bod gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai'r polisi hwn yn cael ei ddilyn. Byddai angen i'r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol y gellid dod i rym pe bai unrhyw un o'r safleoedd yn peidio â bod yn safle ar gyfer darpariaeth addysg.*

6.11 Sylwadau yn ymwneud â'r ysgolion cyfagos

- 6.11.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi fod Ysgol Llanbedrog dros ei chapasiti.** *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Mae'r polisi*

mynediad yn cyd-fynd â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion, Llywodraeth Cymru. Dengys y tabl isod sawl disgybl sy'n mynychu ysgolion dalgyrch ac all-dalgyrch yn Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach a'r ysgolion cyfagos (Adran 5.1 yn y ddogfen ymgynghori).

- 6.11.2 *Nid yw'r Awdurdod o'r farn bod sefyllfa niferoedd Ysgol Llanbedrog yn berthnasol i'r ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.*
- 6.11.3 *Gyda 21 o lefydd gweigion, (a 4 lle gwag yn y Meithrin), mae gan Ysgol San Bach gapasiti digonol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, am y pum mlynedd nesaf.*
- 6.11.4 **Cyfeiriodd un neu ddau at effaith adeiladu estyniad yn Ysgol Llanbedrog ar addysg y disgyblion.** *Mewn ymateb i hyn eglurwyd nad oes bwriad rhoi estyniad ar Ysgol Llanbedrog fel rhan o'r cynnig a oedd yn destun yr ymgynghoriad. Er eglurder, y cynnig arfaethedig yw cau Ysgol Abersoch, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.*

6.12 Teithio a chlodiant

- 6.12.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â'r effaith posib ar drefniadau teithio i'r ysgol. Roedd rhai'n nodi pa mor gyfleus yw Ysgol Abersoch gan fod posib cerdded i'r ysgol. Roedd eraill yn nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith ar yr amgylchedd gan y byddai angen teithio ymhellach i'r ysgol, ac y byddai hynny hefyd yn arwain at gynydd yn y costau cludiant. Roedd eraill yn nodi anfodlonrwydd efo'r trefniadau teithio arfaethedig gan fod y llwybr cerdded o Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn beryglus. Yn ogystal, roedd un ymateb yn gofyn (i) am wybodaeth ar sut y cyfrifwyd yr amcan gostau cludiant, (ii) os yw'r awdurdod wedi darganfod faint o blant fydd angen cludiant i Ysgol Sarn Bach, (iii) am wybodaeth am faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y cynllun seddi gweigion, ac os yw'r disgyblion rheiny yn talu am y cludiant yn unol â'r polisi. Yn ogystal, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn datgan anfodlonrwydd am y diffyg cynnig o gludiant i ddisgyblion oed meithrin.**
- 6.12.2 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir mai Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yw anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud. Mae cludiant ar gael am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sydd yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgyrch.*
- 6.12.3 *Pe gweithredir y cynnig, ni ragwelir y bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol â'r strategaeth. Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle presennol Ysgol Sarn Bach a rhagwelir y byddai'r daith oddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws.*
- 6.12.4 *Gan fod y llwybr o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yn cael ei hystyried fel un anaddas i blant gerdded, mae'r awdurdod eisoes yn darparu cludiant di-dâl i ddisgyblion cymwys 8-11 oed s o Abersoch sy'n mynychu Ysgol Sarn Bach. O ganlyniad, mae bws ysgol gynradd eisoes yn weithredol rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch - felly ni ragwelir costau cludiant ychwanegol yn deillio o weithredu'r cynnig arfaethedig, na chynnydd sylweddol yn allyriadau CO2.*
- 6.12.5 *Pe byddai angen darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgyrch Ysgol Abersoch, gan gynnwys y disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, yna byddai angen addasu trefniadau cludiant cyfredol Ysgol Sarn Bach. Gallai hyn olygu bod angen bws pwrpasol (bore a phrynhawn) ar gyfer disgyblion Ysgol Sarn Bach, ar gost ychwanegol o oddeutu £14,000 y flwyddyn.*
- 6.12.6 *Y gost bresennol o gludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach yw £16,500. Pe byddai angen addasu'r trefniadau presennol, amcangyfrifir y byddai angen bws 49 sedd fyddai'n darparu cludiant ar gyfer holl*

ddisgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 y dalgylch, ar gost o £30,500. Byddai hyn felly yn arwain at gost uwch o £14,000 fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

- 6.12.7 *Os gweithredir y cynnig, byddwn yn trefnu arolwg gyda rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n dymuno trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn canfod faint o ddisgyblion fydd angen cludiant am ddim o Abersoch unwaith y bydd penderfyniad wedi ei wneud. Bydd hyn yn rhoi niferoedd pendant i'r Awdurdod benderfynu a fyddai angen bws mwy ai peidio.*
- 6.12.8 *Fel rhan o'r Cynllun Seddi Gweigion, mae'r Cyngor yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sy'n mynychu ysgol (neu safle ysgol) heblaw ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch ar gyfer manteisio ar unrhyw seddi gwag ar gerbydau cytundeb trwy dalu ffi gyfredol tu allan i'r dalgylch. Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar:*
- *Bod seddi gwag ar gael*
 - *Nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol*
 - *Dim costau ychwanegol i'r Cyngor*
 - *Dalu'r ffi gyfredol am seddi gwag.*
- 6.12.9 *Byddai'r holl ddysgwyr a wnaeth gais am gludiant wedi talu am gynllun sedd wag i deithio ar y bws ysgol ddynodedig. Mae rhwng 3 a 6 o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynllun hwn ers 2017.*
- 6.12.10 *Mewn ymateb i'r pryder na fydd yr awdurdod yn cynnig cludiant i ddisgyblion oed meithrin, nodir mai cyfrifoldeb rhieni yw gwneud trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin. Dydy'r Awdurdod ddim yn darparu cludiant ar gyfer disgyblion oedran meithrin gan nad yw'n ofyn statudol arno i wneud.*

6.13 Y Gymuned

- 6.13.1 **Mae'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn ymwneud â'r gymuned wedi eu rhestru isod:**
- **Ysgol yn cefnogi bywyd pentref/rhan allweddol o'r pentref**
 - **Byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref**
 - **Mae angen mwy o dystiolaeth am yr effaith ar y gymuned**
 - **Effaith twristiaeth ar yr ardal**
 - **Diffyg perthynas efo cymuned Ysgol Sarn Bach**
- 6.13.2 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, y cynhaliwyd asesiad effaith ar y gymuned ar opsiynau'r rhestr fer. Nododd yr asesiad, drwy gau Ysgol Abersoch y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. O ganlyniad, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.*
- 6.13.3 *At hynny, nodir wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol ei gael ar gymuned Abersoch, fod 9 (35%) o ddisgyblion (3- 8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly bod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen â'r gymuned yn Abersoch.*
- 6.13.4 *Mae'r Awdurdod yn derbyn y bydd effaith cymunedol posib o gau Ysgol Abersoch. I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe gweithredir y cynnig, mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.*

6.14 Effaith ar ddysgwyr

- 6.14.1 **Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau yn cyfeirio at effaith negyddol ar ddysgwyr Ysgol Abersoch, gan gynnwys effaith ar iechyd meddwl petai'r cynnig arfaethedig o gau Ysgol Abersoch yn cael ei wireddu. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, bu i'r Cyngor gydnabod fod y cyfnod yma yn un o ansicrwydd a allai arwain at straen ac effaith ar ddysgwyr. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i gynorthwyo'r dysgwyr i setlo yn eu hysgol newydd.**
- 6.14.2 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi pryder am y niferoedd uwch o ddysgwyr mewn dosbarthiadau yn yr ysgol amgen, ynghyd â phryder y byddai gwireddu'r cynnig o gau'r ysgol yn amddifadu plant Abersoch o'u hawliau i dderbyn addysg yn eu pentref eu hunain, gan eu hamddifadu o hanes eu pentref, ac yn sgil hynny byddai effaith ddwys ar ddyfodol y plant a'r gymuned.**
- 6.14.3 *Mewn ymateb i'r sylwadau, bu i'r Cyngor nodi ei fod yn ymwybodol bod yr ysgol amgen yn cynnig addysg o ansawdd cyfatebol, gan gynnig mwy o brofiadau i'r disgyblion gydweithio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion, gan alluogi'r disgyblion i fanteisio ar ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.*
- 6.14.4 *Ymhellach, bu i'r Cyngor nodi ei fod wedi bod yn agored yn glŷn â'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch o gychwyn y broses, gan fod o'r farn y byddai'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach yn arwain at:*
- *Leihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion*
 - *Cynnig profiadau i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion oed-berthnasol*
 - *Addysgu'r plant mewn dosbarthiadau o faint mwy addas*
 - *Lleihau'r amrediad o lwfans y pen ar gyfer holl ddisgyblion y Sir*
 - *Sicrhau bod plant yn trosglwyddo unwaith yn ystod eu haddysg gynradd ac uwchradd yn hytrach na dwywaith*

6.15 Effaith ar yr iaith Gymraeg

- 6.15.1 **Cafwyd nifer o sylwadau a oedd yn cyfeirio at ddylanwad yr ysgol ar iaith a diwylliant Abersoch ac o golli'r ysgol, byddai hynny'n cael effaith negyddol ar faint o Gymraeg fyddai'n cael ei siarad mewn amgylchiadau bob dydd ym mhentref Abersoch. Cafwyd cyfeiriadau hefyd at lwyddiant Ysgol Abersoch i ennill gwobr aur y Siarter Iaith am ei hymdrechion i hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan felly wireddu un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, ynghyd â Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hynny, cafwyd sylwadau a oedd yn nodi fod trigolion a busnesau Abersoch yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg oherwydd yr holl waith a wna'r athrawon a'r disgyblion o'i hybu, gyda nifer o siopau yn arddangos arwyddion dwyieithog yn sgil hynny.**
- 6.15.2 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, bu i'r Cyngor gydnabod ymdrechion Ysgol Abersoch i ddatblygu sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a'r diwylliant*

Cymreig yn ehangach yn y gymuned, gan gyfleu gwerthfawrogiad o gefnogaeth y gymuned i'r ysgol ac i'r iaith Gymraeg yn sgil hynny. Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd fod y Cyngor hefyd yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr iaith Gymraeg. Er hynny, disgwyliad yr Awdurdod yw bod holl ysgolion cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg ac iaith gymdeithasol disgyblion, gan mai'r un yw'r disgwyliadau ieithyddol ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd.

- 6.15.3 **Cyfeiria nifer o'r ymatebwyr yn benodol hefyd at ddyhead uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o hybu addysg cyfrwng Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, er mwyn cyrraedd nod o filiwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050, a bod y cynnig o gau'r ysgol yn mynd yn groes i'r nod cenedlaethol hwn.** *Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd fod y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori wedi nodi bod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag ad-drefnu angen cydnabod ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.*
- 6.15.4 *Nodwyd yn ogystal fod y Cyngor yn cydnabod y pryderon ynglŷn â'r effaith posib ar yr iaith Gymraeg ac wedi cwblhau asesiad o ardrawiad ieithyddol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Yn yr asesiad, deuir i gasgliad na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a hynny'n bennaf yn sgil disgwyliadau'r Polisi Iaith, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu. At hyn, fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf, gyda 57% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi Cymraeg, o gymharu â 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi Cymraeg.*
- 6.15.5 **Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r ysgol fel adnodd pwysicaf y pentref o ran adfywio a pharhad y gymuned a'r iaith Gymraeg.** *Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Cyngor i liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, bod yr asesiad o ardrawiad ieithyddol yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael ei chynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol. Yn ogystal, nododd y Cyngor fod yr asesiad effaith ar y gymuned yn nodi y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol yn deillio o gau'r ysgol. Fodd bynnag, nodir fod 9 (35%) o ddisgyblion Meithrin – Bl. 3 sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach eisoes.*
- 6.15.6 **Cafwyd nifer o sylwadau hefyd yn amau neu'n herio dibynadwyedd y data sydd wedi'i gynnwys yn yr asesiad o ardrawiad ieithyddol, ynghyd â herio'r farn am yr effaith positif tebygol o weithredu'r cynnig.** *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, bu i'r Cyngor nodi ei fod yn cynnig yr Asesiad Effaith ac yn canfod barn ar y cynnig o'r effaith drwy gyfrwng yr ymgynghoriad.*
- 6.15.7 *Mewn ymateb i'r sylwad am faint y sampl o blant ddaru gwblhau'r holiadur gwe iaith, bu i'r Cyngor gadarnhau mai sampl o blant Cyfnod Sylfaen ymhob un o'r ysgolion a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol, a hynny er mwyn sicrhau cymhariaeth deg ac ystyrlon ar draws yr ysgolion. Yn sgil niferoedd isel Ysgol Abersoch, cydnabyddir bod sampl y data yn fychan, fodd bynnag, nododd y Cyngor fod y data yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynodd y disgyblion eu hunain yn yr holiadur yn nodi eu harferion o ran defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.*

6.15.8 *Ymhellach, bu i'r Cyngor nodi, er bod y disgyblion o'r un grŵp oedran wedi cwblhau'r holiadur ymhob un o'r ysgolion, nid oedd yn annisgwyl bod data Ysgol Abersoch yn dangos mai o dan arweiniad athro neu gymhorthydd y mae'r disgyblion yn fwyaf hyderus i siarad Cymraeg, gan fod 67% o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o gartrefi di-Gymraeg, ac nad yw'r gyfundrefn addysg wedi cael cyfle digonol i'w trochi yn y Gymraeg er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau.*

6.16 Sylwadau yn ymwneud â'r Cylch Ti a Fi a'r Cylch Meithrin

- 6.16.1 **Mae nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn nodi pryderon ynglŷn â dyfodol y Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn Abersoch pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.**
- 6.16.2 **Cyflwynwyd sylwadau penodol am yr effaith o golli'r Cylch Meithrin. Nodwyd gan rai o'r ymgynghorai fod galw am y gwasanaeth hwn yn nalgylch Ysgol Abersoch.**
- 6.16.3 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, eglurwyd pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.*
- 6.16.4 *Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibilïadau efo'r cynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibilïadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r ysgol amgen, neu symud i safle arall ym mhentref Abersoch. Fe nodir yn yr asesiad effaith cymunedol -“Cynhelir Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.”*
- 6.16.5 **Nododd un sylw y byddai siawns cyson am fwy o ddisgyblion ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, awgrymwyd y byddai caniatáu mwy o amser i'r Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol posib y gall lleoli cylch meithrin ar safle Ysgol Abersoch ei gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu hyn, a rhagwelir y byddai'r heriau o leihad mewn niferoedd, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol yn parhau. Yn ogystal dylid nodi nad yw'r Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi yn rhan o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod y posibilïadau gyda chynrychiolwyr perthnasol – gallai'r posibilïadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, neu symud i safle arall yn ardal Abersoch.**

6.17 Arall/Cyffredinol

- 6.17.1 **Derbyniwyd nifer o sylwadau eraill yn nodi pa mor dda mae addysg Ysgol Abersoch wedi bod yn hanesyddol, megis pa mor dda ydi'r lleoliad, pa mor gefnogol yw rhieni, staff a llywodraethwyr wedi bod, pwysigrwydd yr ysgol i gynnal yr iaith Gymraeg a'r rhan mae'r ysgol wedi'i chwarae yn y gymuned leol. Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, serch hynny, mae'n rhaid cydnabod bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol yn sgil y niferoedd isel, fel y manylir yn adran 4.1.2. uchod.**
- 6.17.2 **Derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu penderfyniadau pwyllgorau Cyngor Gwynedd, ac yn cwestiynu a fydd gwrandawriad teg yn cael ei gynnal yn achos Ysgol Abersoch.**

- 6.17.3 *Galwyd penderfyniad y Cabinet 15 Medi 2020 gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 8 Hydref 2020, ble rhoddwyd ystyriaeth i benderfyniad Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch 31 Awst 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach a'r 1 Medi 2021. Yn dilyn ystyriaeth fanwl, pleidleisiodd y pwyllgor o blaid anfon y mater yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried.*
- 6.17.4 *Ar 3 Tachwedd 2020 bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gwrdd i drafod argymhelliad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ynglŷn â phenderfyniad y Cabinet ar 15 Medi 2020.*
- 6.17.5 *Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth fanwl, penderfynodd Cabinet y Cyngor, na ddylid addasu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet a wnaethpwyd ar 15 Medi 2020 i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen a mabwysiadu hyn fel penderfyniad terfynol.*
- 6.17.6 **Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi'r broblem ail-gartrefi sydd yn Abersoch a'r effaith mae hyn wedi ei gael ar yr ysgol. Yn ogystal, derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi mai un o'r rhesymau nad yw nifer y disgyblion wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf yw'r diffyg tai fforddiadwy.**
- 6.17.7 *Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau, fodd bynnag, dymuna'r Cyngor nodi nad oes ganddo reolaeth dros y farchnad dai agored. Ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu Cynllun Gweithredu a fydd yn buddsoddi £77m mewn dros 30 o gynlluniau penodol i daclo'r her gynyddol o ddiffyg tai addas i drigolion y Sir, gan gynnwys cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol. Caiff y Cynllun ei weithredu dros y 6 mlynedd nesaf gan gynnwys prosiectau megis cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol yng Ngwynedd; prynu cyn-dai cymdeithasol a thai preifat i'w gosod ar rent fforddiadwy i drigolion Gwynedd; datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu; gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor"; Cynllun Cymorth Prynu a Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag. Mae union leoliadau rhai o'r cynlluniau hyn i'w cadarnhau yn dilyn ymarferiad o ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai.*
- 6.17.8 *Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hyn ac yn caniatáu i ni anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol. Rydym hefyd yn cydnabod y byddwn angen parhau i ymgyrchu am newidiadau pellach cenedlaethol er mwyn cryfhau ein gallu i weithredu o fewn Gwynedd a bydd y Cyngor yn parhau i wneud hynny ar bob cyfle posib yn y maes tai, trethiant, trwyddedu a chynllunio.*
- 6.17.9 **Roedd rhai sylwadau yn holi pam na ddefnyddir cyfran mwy o dreth y Cyngor sy'n cael ei gasglu yn yr ardal tuag at gostau cynnal yr ysgol. Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'n nodi fod yr ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym hob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion llawn amser). Cyfanswm y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582. Cost fesul disgybl yn Ysgol Abersoch yw £17,404 (2020-21), gyda chyfartaledd sirol cost fesul disgybl yn £4,198. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir oherwydd fod rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol yn parhau.**
- 6.17.10 **Derbyniwyd un sylwad yn holi pam nad ydi Ysgol Abersoch yn cael chrybwyll fel ysgolion gwledig. Nid yw Ysgol Abersoch yn cael ei hystyried fel ysgol wledig yn Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 Llywodraeth Cymru.**

- 6.17.11 **Roedd rhai sylwadau yn nodi'r posibilrwydd y bydd mwy yn dewis gweithio o adref yn sgil COVID ac yn dewis byw mewn pentrefi fel Abersoch, ac y byddai hynny'n arwain at gynnydd yn niferoedd yr ysgol. Roedd eraill yn nodi fod potensial y bydd mwy o dai a swyddi yn cael eu creu yn yr ardal fyddai, o bosib, yn arwain at gynnydd yn niferoedd plant. Yn ogystal, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn nodi fod pobl yn gweld Abersoch fel pentref gwyliau yn hytrach na lle i bobl fyw ac y byddai cau'r ysgol yn cyfrannu at hyn.**
- 6.17.12 *Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nodir nad oes sicrwydd y byddai newidiadau demograffig i'r dyfodol yn cynyddu niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch. Byddai plant a phobl ifanc y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel yn Ysgol Sarn Bach sydd 1.4 milltir i ffwrdd o bentref Abersoch.*

6.18 Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc

- 6.18.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.6 uchod, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori rhithwir gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd sydd yn destun i'r ymgynghoriad statudol hwn. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal sesiynau rhithwir â'r ysgolion i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Dyma'r prif bwyntiau gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc:

Ysgol Abersoch	Ysgol Sarn Bach
Roedd yr holl ddisgyblion yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig.	Nid oedd unrhyw un o aelodau'r cyngor ysgol yn gwrthwynebu'r cynnig.
Codwyd gwrthwynebiadau gan y rhieni bod cynnal cyfarfod dros <i>Google Meet</i> ar fater mor sensitif yn annheg ar y plant.	Roedd y disgyblion yn ymddangos yn ddibryder ynghylch y posibilrwydd o groesawu 10 disgybl newydd i'r ysgol ym mis Medi.
Roedd rhieni yn teimlo'n gryf fod angen ystyried newidiadau diweddar yn yr ysgol ac effaith y pandemig ar addysg a lles y plant cyn symud ymlaen gydag unrhyw benderfyniad i gau'r ysgol. Gofynnodd rhai plant i aros ymlaen yn yr ysgol am flwyddyn arall.	Roedd y disgyblion yn hapus i wneud pob ymdrech i helpu disgyblion newydd i ymgartrefu. Roeddent yn barod i rannu syniadau ynghylch sut y gallai'r ysgol addasu i wneud i hyn ddigwydd trwy ddeall yr hyn roeddent yn ei fwynhau yn Ysgol Abersoch a dyblygu hynny yn Ysgol Sarn Bach.
Lleisiodd yr holl ddisgyblion y byddai cau Ysgol Abersoch, ysgol yr oeddent yn ei choleddu'n annwyl, a symud i Ysgol Sarn Bach yn annheg arnynt ac yn brofiad brawychus.	Roedd symud i Ysgol Sarn Bach o Ysgol Abersoch ar ddiwedd Blwyddyn 3 yn brofiad cadarnhaol a gwerth chweil ym marn holl aelodau'r cyngor ysgol. Roeddent yn credu y byddai hyn hefyd yn wir pe bai'n rhaid i ddisgyblion iau wneud hyn fis Medi nesaf.

- 6.18.2 Yn yr adroddiad ymgynghori â phlant a phobl ifanc, daeth yr Hwylusydd i gasgliad:

"Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynghori oedd bod disgyblion Ysgol Abersoch yn anhapus iawn gyda'r bwriad o gau eu hysgol ac yn ei gweld yn anodd iawn derbyn y gallent fod yn hapus yn Ysgol Sarn Bach. Roedd sylwadau disgyblion Ysgol Abersoch yn ei gwneud yn amlwg eu bod yn ymwrthod â'r cynnig i gau eu hysgol a symud eu haddysg i Ysgol Sarn Bach fis Medi nesaf. Un o'r prif negeseuon oedd eu pryder o golli profiadau pwysig o fewn amgylchfyd agos yr ysgol, sef ymweliadau addysgol â'r traeth a'r pentref lle'r oedd dysgu am y byd o'u cwmpas a'u cymuned drwy brofiadau uniongyrchol yn cael eu coleddu'n fawr gan y plant.

Roedd yn amlwg fod disgyblion Ysgol Sarn Bach yn cydymdeimlo gyda'i sefyllfa ond yn awyddus iawn i roi croeso cynnes i'r disgyblion newydd. Roedd y Cyngor Ysgol yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl hwy fel cyfoedion i helpu plant Abersoch i setlo yn eu hysgol newydd a gwneud iddynt deimlo'n hapus yno."

6.19 Estyn

6.19.1 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn ei wneud yn ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fel corff yr ymgynghorir ag ef, mae Estyn yn rhoi eu barn ar yr ymgynghoriad.

6.19.2 Mynegodd Estyn yn ei grynodeb:

"Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal o leiaf y safonau presennol o addysg gynradd yn yr ardal."

6.19.3 Yn ei ymateb i ddisgrifiad a manteision y cynnig, nodwyd:

"Mae'r cynnig yn cyflwyno achos cynhwysfawr dros newid sy'n ystyried yr heriau presennol i Ysgol Abersoch. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd disgyblion isel, canran uchel o lefydd gweigion, amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau ac adnoddau ariannol ychwanegol. Rhoddir ystyriaeth lawn i'r heriau hyn...."

Mae'r cynnig yn gwerthuso'r opsiynau yn llawn cyn amlygu tair opsiwn fyddai fwyaf hyfyw sef opsiwn 2 (newid ystod oedran i 3-11oed), Opsiwn 3 ac Opsiwn 6. Asesir effaith y tri opsiwn uchod ar ansawdd yr addysg, trefniadau teithio a'r gymuned. Yn dilyn yr asesiad mae'r awdurdod lleol yn dewis ac yn cynnig Opsiwn 6, cau Ysgol Abersoch ac addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1af o Fedi 2021...."

6.19.4 Wrth ystyried effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, nodai Estyn:

"Ymddengys fod y cynigiwr wedi ystyried effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn briodol. Ni ragwelir bod y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg y disgyblion gan fod polisi iaith y cyngor yr un mor berthnasol yn yr ysgol amgen a byddai parhad o addysg cyfrwng Gymraeg."

6.19.5 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, bu i Estyn nodi:

"Mae safonau yn y ddwy ysgol a effeithir yn debyg iawn i'w gilydd ac yn yr arolygiadau mwyaf diweddar barnwyd y ddwy ysgol yn dda ar bob cwestiwn allweddol neu faes arolygu."

Mae'r cynnig yn ystyried deilliannau diweddaraf arolygiadau Estyn y ddwy ysgol sydd dan sylw. Arolygwyd Ysgol Abersoch yn Mehefin 2017 a barnwyd y tri chwestiwn allweddol yn dda. Yn Hydref 2017, arolygwyd Ysgol Sarn Bach gan farnu pob maes arolygu yn dda. Mae'r cynigiwr yn asesu effaith tebygol y cynnig ar feysydd y fframwaith arolygu. Dangosa hyn y gall effaith positif fod yn bosibl ar les a phrofiadau dysgu o gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo'r plant i Ysgol Sarn Bach. Mae hyn o ganlyniad i'r hyn mae'r awdurdod lleol wedi nodi am ddisgyblion yn elwa o brofiadau i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Er nad yw'r cynnig yn gwneud cymariaethau ar berfformiad y ddwy ysgol maent yn hyderus bod ansawdd y ddarpariaeth yn Ysgol Sarn Bach gystal â'r ddarpariaeth y cyfnod sylfaen yn Ysgol Abersoch. Gwelir bod y cynigiwr wedi ystyried parhad yn y ddarpariaeth gwricwlaidd yn briodol gan awgrymu bod ysgolion gyda niferoedd uwch o ddisgyblion yn gallu cynnig strwythur mwy cadarn wrth gynllunio a darparu'r cwricwlwm.

Yn eu asesiad o arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r cynnig yn dyfynnu o arolygiadau diweddar sy'n nodi bod ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda. Mae Ysgol Abersoch ar hyn o bryd yn gweithredu dan arweiniad pennaeth mewn gofal tra bod pennaeth parhaol yn Ysgol Sarn Bach. (Nodwyd hyn yn sgil absenoldeb pennaeth parhaol Ysgol Abersoch) Mae'r ddwy ysgol wedi eu nodi fel bod yn y categori melyn o ran cefnogaeth a gallu i wella gan Lywodraeth Cymru

Nodir yn glir yr hyn y mae'r cynigiwr yn ei ddisgwyl o ran effaith ar lywodraethu a materion staffio. Mae'n amlinellu'r gefnogaeth fydd ar gael i aelodau staff Ysgol Abersoch yn benodol sydd yn bennaf yn cael eu heffeithio gan y cynnig.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sylw priodol i'r effaith ar grwpiau bregus o ddisgyblion gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n nodi sicrwydd bod gan Ysgol Sarn Bach y cyfleusterau i gynnig darpariaeth gyfatebol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Maent wedi cynllunio'n addas i ymgynghori gyda'r disgyblion. Mae'r awdurdod lleol wedi paratoi dogfennaeth addas ar gyfer egluro'r ymgynghoriad i ddisgyblion ac yn holi eu barn trwy holiadur syml. Nid yw'n glir i ba raddau maent am ystyried yr effaith ar ddisgyblion presennol Ysgol Sarn Bach."

6.19.6 *Mewn ymateb i'r sylwad yn ymwneud â'r ymgynghoriad gyda phlant, nodar Awdurdod eu bod wedi llunio dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig, ynghyd â chynnal sesiynau ymgynghori rhithwir gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. Trefnwyd bod hwylusydd annibynnol yn cynnal y sesiynau rhithwir gyda disgyblion y ddwy ysgol er mwyn canfod eu barn. Amlygodd prif bwyntiau'r ymgynghoriad fod disgyblion Ysgol Sarn Bach yn gefnogol i'r cynnig ac yn ddibryder am y newid, gan ddangos awydd i wneud pob ymdrech i helpu disgyblion newydd ymgartrefu.*

6.20 Yr opsiynau amgen a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

6.20.1 Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, gall ymgynghorai awgrymu opsiynau amgen eraill yn ystod yr ymgynghoriad.

6.20.2 Awgrymwyd 5 opsiwn amgen arall yn ystod yr ymgynghoriad. (Roedd nifer o'r ymatebion yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9 oed yn ogystal.) Gwerthuswyd yr opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd gan roi ystyriaeth i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac ystyriaethau perthnasol eraill. Mae copi o'r gwerthusiad opsiynau llawn wedi ei gynnwys yn **Atodiad A**.

6.20.3 Yn dilyn gwerthuso'r opsiynau amgen a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, daethpwyd i'r casgliad y dylid rhoi ystyriaeth bellach i 3 opsiwn, sef:

- Ysgol Aml-safle (Safle Abersoch, Llanbedrog a Sarn Bach)
- Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron
- Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)

6.20.4 Mae'r tabl isod yn nodi'r opsiynau a awgrymwyd gan yr ymgynghorai ac yn crynhoi'r rhesymau dros beidio a bwrw ymlaen â'r opsiynau hynny.

Opsiw	Disgrifiad	Rhesymau dros beidio ag bwrw ymlaen â'r opsiwn
Opsiw 2(b)	Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed	Ni ragwelir y byddai ychwanegu un flwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau. Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth Cyfnod Allweddol 2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i

		drosoglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.
Opsiwn 10	Canolfan Ddiwylliannol yn Ysgol Abersoch	Rhagwelir y byddai niferoedd disgyblion yn parhau'n isel i'r dyfodol yn seiliedig ar y rhagamcanion niferoedd, dosbarthiadau'n parhau'n fychain, ac ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau yn parhau. Tra'n cydnabod effaith gadarnhaol gall mentrau megis Canolfan ddiwylliannol ei gael o safbwynt y gymuned a photensial i ddenu incwm i'r ysgol, ni ragwelir y byddai'r opsiynau i sefydlu Ysgol Draeth, Canolfan Ddiwylliannol na Darparu Addysg Gyflawn arwain at gynnydd yn y niferoedd, a rhagwelir y byddai'r heriau'n parhau.
Opsiwn 11	Darparu Addysg Gyflawn ac Adnabod Bro yn Ysgol Abersoch	
Opsiwn 12	Ysgol Draeth	
Opsiwn 13	Ysgol Aml-safle (Safle Abersoch, Llanbedrog a Sarn Bach)	Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y byddai'n arwain at fwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Gan mai 1 ysgol fyddai hi, byddai mwy o hyblygrwydd yn y trefniadau arweinyddiaeth a staffio. Yn ogystal, byddai'n rhesymoli gwariant y disgybl o fewn yr ardal- defnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol gan mai 1 ysgol fyddai hi.
Opsiwn 14	Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron	Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau ac arbenigeddau.
Opsiwn 15	Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)	Caiff yr opsiwn yma ei ystyried ymhellach gan y gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau ac arbenigeddau.

6.21 Asesiadau Effaith o'r opsiynau rhesymol eraill

6.21.1 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, cynhaliwyd asesiadau pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill gan ystyried unrhyw wybodaeth bellach ddaeth i law yn ymwneud â'r ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad (Atodiad D).

6.21.2 O safbwynt yr asesiad effaith ar y gymuned derbyniwyd ymatebion oedd yn nodi fod gwallau yn y wybodaeth gefndirol a nodwyd yn yr asesiad. Yn ogystal, roedd un ymatebydd yn awgrymu y dylai'r asesiad o effaith y model ffederaleiddio, o safbwynt cyfleusterau a gwasanaethau eraill, gael ei nodi'n bositif. Mae'r Cyngor yn derbyn y sylwadau hyn ac mae'r wybodaeth a'r manylion hynny wedi eu cynnwys a'u cyfarch yn yr asesiad

effaith cymunedol diweddaraf. Yn ogystal, fe nodir yn yr asesiad diweddaraf fod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi pwysleisio y byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref a'r gymuned leol. Mae'r asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr asesiad diweddaraf yn ogystal.

- 6.21.3 O safbwynt yr asesiad o'r effaith tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, a'r Asesiad effaith tebygol ar drefniadau teithio i ddisgyblion, ac eithrio'r angen i ystyried opsiynau amgen eraill, ni dderbyniwyd gwybodaeth penodol a fyddai'n cael effaith ar gasgliadau'r asesiadau effaith ar Ansawdd Addysg a Threfniadau teithio o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol a gyniwyd gan y Cyngor fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.
- 6.21.4 Mae'r asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill wedi'u crynhoi yn y tabl isod (Gweler yr asesiadau llawn yn Atodiad D):

<i>Crynodeb o'r asesiad o'r effaith ar:</i>			
	<i>Ansawdd a Safonau Addysg</i>	<i>Y gymuned</i>	<i>Trefniadau teithio i ddisgyblion</i>
Newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg na ragwelir y byddai ymestyn ystod oedran yr ysgol yn cael effaith negyddol ar ansawdd a safonau'r addysg a ddarperir yn yr ysgol. Byddai ymestyn yr ystod oed yn cynyddu cyflenwad CA2 yr ysgol.	Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai newid ystod oedran yr ysgol yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai newid ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed yn effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.
Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gallai gweithredu model o'r fath arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.	Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.	Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.

<p>Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach</p>	<p>Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, deuir i'r casglid fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach.</p>	<p>Yn gryno, nodai'r asesiad o'r effaith ar y Gymuned y byddai peth effaith negyddol ar y gymuned yn deillio o weithredu'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.</p> <p>Yn ogystal, nodir fod nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi pwysleisio y byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref a'r gymuned leol.</p> <p>Serch hynny, nodai'r awdurdod fod 35% o'r disgyblion (M-BI.3) sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, ac o ganlyniad, deuir i'r casgliad fod cysylltiad rhwng yr ysgol â'r ardal ehangach yn bodoli eisoes.</p> <p>I liniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y gymuned pe gweithredir y cynnig, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.</p>	<p>Byddai'r opsiwn o gau'r ysgol yn golygu fod angen i ddisgyblion Ysgol Abersoch deithio yn bellach i'w hysgol bob dydd. Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli 1.4 milltir o Ysgol Abersoch, ac amcangyfrifir fod y daith o ddeutu 5 munud bob ffordd mewn car neu fws sydd o fewn y pellter rhesymol y disgwylir i blant cynradd ei deithio i'w hysgol yn unol â'r 'Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd' o 30 munud bob ffordd. Bydd cludiant i'r ysgol amgen yn cael ei gynnig yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd.</p>
<p>Ysgol Aml-safle (Safle Abersoch, Llanbedrog a Sarn Bach)</p>	<p>Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai Ysgol Aml-safle</p>	<p>Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai Ysgol Aml-safle yn cael effaith negyddol</p>	<p>Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai sefydlu Ysgol Aml-safle yn</p>

	<p>yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Gall model Ysgol Aml-Safle arwain at arbed amser y Pennaeth, drwy gynllunio ar draws y safleoedd yr ysgol yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.</p>	<p>ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned. Serch hynny, er bod presenoldeb safle ymhob cymuned, ni fyddai hunaniaeth gymunedol i'r safleoedd hynny.</p>	<p>debygol o effeithio ar drefniadau teithio disgyblion Ysgol Abersoch, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Abersoch.</p>
<p>Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron</p>	<p>Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gallai gweithredu model o'r fath arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.</p>	<p>Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.</p>	<p>Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.</p>
<p>Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)</p>	<p>Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn effeithio'n bositif ar y meini prawf profiadau addysgu a dysgu yn ogystal ag ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gallai gweithredu model o'r fath arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach</p>	<p>Dengys yr asesiad o'r Effaith Tebygol ar y Gymuned na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai presenoldeb a gweithgarwch yr ysgol yn parhau yn y gymuned, yn unol â'r sefyllfa bresennol.</p>	<p>Dengys yr Asesiad o'r Effaith Tebygol ar Wahanol Drefniadau Teithio na fyddai ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio'r ysgol, gan y byddai'r model yn golygu fod y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch.</p>

	nac ar gyfer ysgolion unigol.		
--	-------------------------------	--	--

6.22 Gwerthusiad o'r opsiynau amgen rhesymol a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

6.22.1 Ffederaleiddio

Trafodwyd ac ystyriwyd 3 fersiwn gwahanol o'r opsiwn ffederaleiddio fel rhan o'r ymgynghoriad statudol. Yn ogystal, awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad y dylid rhoi ystyriaeth i 2 fersiwn pellach o'r opsiwn, sef:

- (i) Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog, Ysgol Sarn Bach a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron
- (ii) Ffederasiwn Enlli (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron)

6.22.2 Byddai'r opsiynau uchod yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un Corff Llywodraethol.

6.22.3 Byddai Cyrff Llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai Corff Llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (gan gynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn gallu cael eu cadw, neu eu haddasu er mwyn adlewyrchu hunaniaeth y ffederasiwn newydd. Byddai model o'r math hwn hefyd yn galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigeddau.

6.22.4 Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r un o'r ddau opsiwn a nodir uchod yn cyfarch y prif heriau y mae'r ysgol yn ei hwynebu megis niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychan, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.

6.22.5 Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai ffederaleiddio yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad ffederaleiddio yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.

6.22.6 Ysgol Aml-safle

6.22.7 Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

6.22.8 Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisiau'r ysgol.

6.22.9 Yn dilyn pwyso a mesur rhinweddau a gwendidau'r model, daethpwyd i'r casgliad na fyddai Ysgol Aml-safle yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai'n arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad felly, pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel, maint dosbarthiadau bychain, a'r heriau cyllidol y mae'r ysgol yn eu hwynebu yn parhau. Ystyrir felly nad Ysgol Aml-safle yw'r opsiwn gorau ar gyfer sefyllfa'r ysgol.

6.22.10 Ar sail casgliadau'r asesiadau a'r gwerthusiad a nodir uchod, mae'r Awdurdod o'r farn mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig. Manylir hyn ymhellach yn yr adroddiad (Adran 9).

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- 7.1 Cynhaliwyd asesiad Llesiant ar yr opsiynau gan ystyried amcanion lles Cyngor Gwynedd, a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.
- 7.2 Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y Sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".
- 7.3 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i gasgliad fod y cynnig yn bodloni 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y cyngor. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion (mae copi o'r asesiad wedi ei gynnwys yn **Atodiad D**).

8. Cydraddoldeb

- 8.1 Mae polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal.
- 8.2 Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar yr opsiynau, sydd yn rhoi sylw i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae fersiwn diwygiedig o'r asesiad yn **Atodiad D**.
- 8.3 Bu i'r asesiad cydraddoldeb nodi pwysigrwydd hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

9. Casgliad

- 9.1 Argymhellir felly rhyddhau rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Rhagfyr 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, o 1 Ionawr 2022.
- Er i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 rydym yn argymhell addasu'r dyddiad gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Abersoch i 31 Rhagfyr 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad yn datgan pryder am yr amserlen amlinellol ystyrir y byddai gohirio gweithredu tan 31 Rhagfyr 2021 yn caniatáu mwy o amser i'r Adran Addysg roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach.
- 9.2 Deuir i'r casgliad mai'r cynnig hwn yw'r ymateb mwyaf priodol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu a hynny am y rhesymau a nodir yn Adrannau 4.1 a 4.7 o'r adroddiad yma.
- 9.3 Mae'r argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig yn dilyn ystyriaeth o ystod o opsiynau a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd uchelgais y strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd', ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, a ffactorau perthnasol eraill.

Roedd y ffactorau yn cynnwys:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a Niferoedd disgyblion
- Arweinyddiaeth
- Yr effaith debygol ar y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau Daearyddol a'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Ansawdd a Safonau yr Addysg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Ardrawiad Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Y sefyllfa argyfyngus y mae'r ysgol yn ei wynebu
- Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol

9.4 Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn yma eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth ar 15 Medi 2020 ac mae fersiwn diwygiedig sy'n cynnwys yr opsiynau amgen a awgrymwyd gan yr ymgynghorai i'w weld yn **Atodiad A**.

9.5 Mae'r asesiadau effaith yn **Atodiad D**, a'r holl ddogfennaeth gefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

9.6 Yn dilyn ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyrir fod y cynnig ymgynghorwyd arno yn parhau i gynnig yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg dalgylch Abersoch. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn Adran 6 ac **Atodiad B**, ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn yn **Atodiad Ch** ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

10. Camau Nesaf

10.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn – bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

10.2 Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

10.3 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu os bydd gwrthwynebiadau wedi dod i law rhaid i'r awdurdod gyhoeddi adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a'i ymateb iddynt. Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol (os na fydd gwrthwynebiadau wedi dod i law, neu os bydd pob un wedi ei dynnu yn ôl, gall yr Aelod Cabinet wneud y penderfyniad). Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru am ystyriaeth, yn unol â Deddf 2013, a gall y Gweinidog benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo gydag addasiadau.

10.4 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

Mehefin 2021	Cyhoeddi Rhybudd Statudol: os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen a'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.
Medi 2021	Penderfyniad terfynol ar y Cynnig : Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, os derbynnir gwrthwynebiadau, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. Os na fydd gwrthwynebiadau, neu os bydd pob un wedi ei dynnu yn ôl, gall yr Aelod Cabinet wneud y penderfyniad.
Hydref 2021	Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru: Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, os y daeth

	<p>gwrthwynebiadau i law yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w ystyried:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno; ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni; iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion; v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.
Rhagfyr 2021	Gweithredu'r cynnig: Ysgol Abersoch yn cau yn swyddogol, yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet.

11. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

“Mae'r adroddiad a'r broses wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Gellir gweld fod y cyfnod argyfwng COVID wedi gosod heriau ychwanegol ar gynnal y drefn ymgynghori. Fodd bynnag mae'r adroddiad yn cynnig sail priodol i'r Cabinet ddod i benderfyniad ar yr argymhelliad.”

Y Pennaeth Cyllid:

“Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhan 4.1.2 v a vi, 4.7.2 Adnoddau Ariannol, a 6.8.4 o'r adroddiad unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol) wedi ystyried cost cludiant. Mae rhesymau amlwg yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, gan gynnwys rhesymau ariannol fel arbediad blynyddol o £96,062 mewn costau refeniw, a chost gyfredol Ysgol Abersoch yn £17,404 fesul disgybl, o'i gymharu â chyfartaledd sirol £4,198. Felly, rwy'n cefnogi'r argymhelliad.”

Atodiadau:

Atodiad A: Cymhariaeth o nodweddion yr opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth.

Atodiad B: Dadansoddiad o ymatebion yr Ymgynghoriad

Atodiad C: Ymgynghoriad Plant a phobl ifanc

Atodiad Ch: Ymatebion

Atodiad D: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad Dd: Sylwadau'r Aelod Lleol